

---

## Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan  
Dyddiad: Dydd Llun, 10 Ionawr 2022 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 13.30 0300 200 6565  
[SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru](mailto:SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru)

### – Pecyn atodol

---

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

#### 2.8 Gohebiaeth ynghylch gofal plant a chyflogaeth rhieni – y Cytundeb Cydwethio a chyllideb ddrafft 2022–23

(Tudalennau 1 – 4)

##### Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau  
Cymdeithasol ynghylch gofal plant a chyflogaeth rheini – y Cytundeb  
Cydwethio a chyllideb ddrafft 2022–23 – 6 Rhagfyr 2021  
Ymateb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cadeirydd  
ynghylch gofal plant a chyflogaeth rhieni – y Cytundeb Cydwethio a chyllideb  
ddrafft 2022–23 – 5 Ionawr 2022

#### 7 Gofal plant a chyflogaeth rhieni: trafod yr adroddiad drafft

(15.15 – 16.30)

(Tudalennau 5 – 62)

##### Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft



## Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

### Equality and Social Justice Committee

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

## Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb  
0300 200 6565

## Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEquality@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEquality  
0300 200 6565

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Julie,

### Gofal plant a chyflogaeth rhieni - y Cytundeb Cydweithio a chyllideb ddrafft 2022-23

Diolch am eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 29 Dachwedd ar gyfer ein hymchwiliad i ofal plant. Rydym yn gwerthfawrogi na allech ymhelaethu ar Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru gan yw trafodaethau manwl ynghylch ymestyn y cynnig gofal plant wedi cael eu cynnal eto.

Rydym wedi cwblhau cymryd tystiolaeth lafar erbyn hyn a'n bwriad yw cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr. Gan ragweld ein casgliadau a'n hargymhellion tebygol, roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at rai materion allweddol cyn i gyllideb ddrafft 2022-23 gael ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr.

### Gofal plant

Gobeithiwn weld gwybodaeth yn y gyllideb ddrafft am yr adnoddau cyfalaf a refeniw angenrheidiol ar gyfer estyn y rhaglen gofal plant i blant dwy oed, gyda'r manylion yn cael eu nodi yn y nodiadau esboniadol cysylltiedig.

Yng ngoleuni'r Cytundeb Cydweithio i sicrhau bod cymunedau mwy difreintiedig yn cael mynediad teg at y ddarpariaeth estynedig, a chyda'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 mewn golwg, hoffai'r Pwyllgor weld cynlluniau peilot i gyflawni'r amcanion hyn yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag y bo'n ddichonadwy, i helpu i lywio'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth estynedig.

Wrth i ofal plant gael ei ymestyn i blant dwy oed, hoffem weld cynllun sy'n canolbwyntio ar blant er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd gofal plant ar gyfer rhai plant yn cael ei dynnu yn ôl wrth iddynt droi'n dair oed, ar y sail bod plant ond yn gymwys i gael addysg blynyddoedd cynnar statudol o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, a'r ffaith bod y Cynnig Gofal Plant cyfredol ond yn cael ei ddarparu i blant sydd â rhieni sy'n gweithio. Disgwylw'n gynlluniau sy'n hyrwyddo trosglwyddiadau di-dor rhwng mathau gwahanol o ddarpariaeth, gyda lles y plentyn yn brif ystyriaeth.

O gofio'r prinder staff presennol yn y sector, bydd yr ymgyrch recriwtio y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei chynnal yn arbennig o bwysig ar gyfer sicrhau bod digon o staff i gyflawni'r ehangiad. Pa



ddulliau arloesol bynnag a ddefnyddir, gobeithio y byddwch yn sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei theilwra i ddenu diddordeb gan gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a dynion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant ar hyn o bryd.

Bydd angen cyllideb hyfforddi a datblygu i sicrhau bod y gweithlu gofal plant, o'i ehangu, yn meddu ar y cymwyseddau gofynnol ar gyfer cyflenwi darpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel ac er mwyn gwella statws, tâl ac amodau'r sector gofal plant.

## Dyddiadau tymhorau ysgol

Gan fod y Cytundeb Cydweithio yn bwriadu "ystyried yr opsiynau ar gyfer rhythm y diwrnod ysgol", a "diwygio dyddiadau tymhorau ysgol mewn ffordd radical er mwyn iddynt gyd-fynd yn well â phatrymau bywyd teuluol a chyflogaeth", hoffem weld sut yr ydych yn bwriadu ehangu'r cydleoeli o ran darparu gofal plant ar safleoedd ysgolion lle bo modd, a'r defnydd o leoliadau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer gofal plant.


## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 29 Tachwedd, wrth gyfeirio at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, dywedasoch mai gofal plant a fydd un o rannau'r strategaeth y byddwch yn mynd ar eu trywydd. Clywodd y Pwyllgor bryderon gan eraill yn ystod ei ymchwiliad am absenoldeb gofal plant yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, felly edrychwn ymlaen at glywed sut y bydd gofal plant yn dod yn faes blaenoriaeth yn y Cynllun.

Bydd y Pwyllgor yn ymhelaethu ar yr holl faterion hyn yn ein hadroddiad ar ofal plant a chyflogaeth rhieni. Byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn cyn gynted ag y bo modd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jeremy Miles am fod dyddiadau tymor ysgol a'r Gymraeg yn dod o fewn ei bortffolio.

Yn gywir,



Jenny Rathbone

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

CC Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf JMSS/3823/21

Jenny Rathbone AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
SeneddEquality@senedd.cymru

5 Ionawr 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am y cyfle i ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i ofal plant a chyflogaeth rhieni, ac am eich llythyr dilynol dyddiedig 6 Rhagfyr.

Mae cefnogi plant a theuluoedd i gael gofal plant fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i ni, fel y mae'r ymrwymadau yn ein Rhaglen Lywodraethu yn eu dangos. I gyflawni ein hymrwymadau, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ac yn datblygu'r sector gofal plant a chwarae, ac yn enwedig y gweithlu – i sicrhau bod gennym wasanaeth sy'n bodloni dyheadau pawb sy'n gweithio ynddo ac sy'n darparu gofal o ansawdd uchel i blant o bob oed.

Cafodd y [gyllideb ddrafft](#) ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr, ac mae honno'n dangos yn glir ein bod yn buddsoddi'n sylweddol i gefnogi ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn buddsoddi £30m yn ychwanegol hyd at 2024-25 yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae hyn yn cynnwys cefnogi mwy o deuluoedd o ran costau gofal plant, os yw'r rhieni'n dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant, a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant dwy flwydd oed, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi darparu refeniw ychwanegol o £40m hyd at 2024-25 ar gyfer cymorth cynnar, gan gynnwys ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant a datblygiad, i gynnal ein rhaglen bresennol, Cynydd ar gyfer Llwyddiant, a ariennir o Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop, ac i adeiladu ar hynny o 2023 ymlaen.

Byddwn hefyd yn buddsoddi cyfanswm o £70m o gyfalaf hyd at 2024-25 mewn lleoliadau'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Byddwch yn ymwybodol bod ein cyllideb gyfalaf yn rhan o'r MEG Addysg a'r Gymraeg, ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (rhaglen Ysgolion a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cholegau'r 21ain Ganrif gynt). Mae'r dull hirsefydlog hwn yn ein galluogi i reoli buddsoddiad yn well yn gyffredinol, a chefnogi cydleoliad gwasanaethau. Byddwn yn parhau â'r dull hwnnw dros gyfnod y gyllideb sydd i ddod, gan adeiladu ar ein hymrwymiad i Ysgolion Cymunedol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y defnydd ehangach o gyfleusterau ysgolion. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y rhaglen fuddsoddi hon a'r cynigion ehangach ynghylch diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol – er mwyn sicrhau bod anghenion y sector gofal plant a chwarae, ac anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaethau, yn cael eu hystyried.

Mae disgwyl imi ddarparu tystiolaeth ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 13 Ionawr - ac mae'n bosibl y byddwch am ystyried y dystiolaeth honno.

Mae cynlluniau i gyflawni'r ymrwymiad i ddarparu gofal plant a ariennir ar gyfer plant dwy flwydd oed yn yr arfaeth, a byddwn yn hapus i rannu mwy o wybodaeth am y cynlluniau hynny wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bwysig i ni, gan adeiladu ar ein rhaglenni buddsoddi presennol mewn lleoliadau newydd a chynyddu'r sgiliau iaith ar draws y gweithlu. Rydym hefyd yn edrych ar drosglwyddiadau rhwng ac ar draws rhaglenni a ariennir fel rhan o'n ffordd o feddwl. Ond mae'n bwysig nodi bod y trosglwyddiad presennol o ofal plant Dechrau'n Deg, er enghraifft, yn trosglwyddo i ddarpariaeth gyffredinol addysg gynnar. Mae hynny'n gyson â'n hymrwymiad i ddarparu rhaglen symlach a chyfannol o ran darpariaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar.

Mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ynghylch recriwtio a chadw staff, a hefyd yr angen i gynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu, bydd ymgyrch 'Gofalwn' Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau. Mae trafodaethau ynghylch sut i dargedu hysbysebion a chynyddu lefel yr wybodaeth sydd ar gael i ddenu cynulleidfya mor eang â phosibl, ac yn enwedig gan ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr posibl, yn parhau. Mae consortiwm Cwlwm hefyd yn parhau â'u gwaith i gynyddu amrywiaeth ar draws y gweithlu, ac i wella'r ffordd y maent yn cefnogi plant a theuluoedd o ystod eang o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig.

Byddwn yn cynnwys ymrwymadau penodol mewn perthynas â'r sector gofal plant a chwarae o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad a'r wybodaeth a rennir gyda'r Pwyllgor hwn.

Edrychaf ymlaen at weld adroddiad ar ganfyddiadau eich ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw argymhellion. A hoffwn ddiolch ichi unwaith eto am y gwaith yr ydych yn ei wneud yn hyn o beth a'r cyfle i gyfrannu at eich trafodion.

yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon